

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
DYDDIAD	16 Tachwedd 2021
PWNC	Holiadur Bodlonrwydd Aelodau
PWRPAS	Rhannu ymatebion a dderbyniwyd I'r Holiadur am Fodlonrwydd Aelodau i'r Tîm Gwasanaethau Democratiaeth
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.
AWDUR	Annes Sion Arweinydd Tîm Democratiaeth

1. Rydym yn awyddus i fod yn gwella ein gwasanaeth yn barhaus ac yn darparu'r gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer Cynghorwyr. Felly, yn sgil trafodaeth ddiweddar penderfynwyd anfon yr holiadur bodlonrwydd Aelodau am y Tîm Gwasanaethau Democratiaeth allan yn fwy rheolaidd nag unwaith y flwyddyn. Bu i mi ei anfon i'r holl aelodau yn ystod ail hanner mis Hydref.
2. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau, gan gynnwys bodlonrwydd gyda gwaith y tîm ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau y gallai'r tîm ei wneud i'r dyfodol.
3. Derbyniwyd 23 o ymatebion ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r prif negeseuon a amlygwyd gan yr aelodau.
4. O ran bodlonrwydd gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i aelodau, nododd 88% fod y gwasanaeth yn dda iawn neu'n dda, 1 Cynghorydd yn nodi ei fod yn dderbyniol, 1 Cynghorydd yn nodi fod y gwasanaeth yn wael ac un yn nodi gwael / gwael iawn.
5. Derbyniwyd nifer o sylwadau ychwanegol, a oedd yn cynnwys y detholiad byr isod:

“ Papurau wastad ar amser, e-byst yn cael eu hateb yn brydlon. Rydych wedi ymdopi yn dda hefo'r newid i gyfarfodydd rhithiol”

“ I have always found the support from the Democracy Service to be very good both in providing answers and providing information..”

“ Mae 'r Gwasanaeth wedi cynorthwyo a chynghori mewn modd effeithiol iawn a hynod broffesiynol ar hyd y blynyddoedd . Rwyf yn werthfawrogol iawn. Diolch yn fawr.”

6. Holwyd a oes unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau y gall y tîm eu gwneud i gefnogi aelodau ymhellach yn eu rôl fel Cynghorwyr. Ymhlith y sylwadau nodwyd anfodlonrwydd gyda'r drefn Cabinet unwaith eto, ond rhaid pwysleisio mai dyma'r drefn statudol ac nad oes unrhyw gamau y gall y Tîm ei wneud i newid y drefn hon.
7. Bu i'r unigolyn a ymatebodd fod y gwasanaeth yn wael ddatgan ei anfodlonrwydd tuag at waith adran arall o fewn y Cyngor – mae'r sylwadau eisoes wedi eu hanfon ymlaen at yr adran berthnasol.
8. Amlygodd yr Aelod a nododd fod y gwasanaeth yn wael lawn / gwael, ei r(h)wystredigaeth am argaeledd Swyddogion y Cyngor ynghyd a diffyg ymateb gan Swyddogion a rhai o Adrannau'r Cyngor l'w ymholiadau fel Cynghorydd. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth yn cydweithio gyda'r Prif Weithredwr a phenaethiaid adran ar draws y Cyngor er mwyn rhoi sylw i'r pryderon am y gallu i ymateb i ymholiadau yn amserol.
9. Cafwyd sgwrs pellach gyda'r unigolyn a nododd fod y gwasanaeth yn dderbyniol er mwyn deall ei sylwadau, ac yn sgil hynny rhoddwyd camau yn eu lle er mwyn lliniaru unrhyw broblemau i'r dyfodol.
10. O ran y sylwadau eraill, nodwyd cais gan ambell aelod am rifau ffôn i gysylltu yn uniongyrchol â swyddogion y Cyngor. Pwysleisir unwaith eto fod rhestr o gysylltiadau defnyddiol ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau ac yn cael ei ddiweddarau'n gyson gan yr Adrannau.
11. Nododd un aelod ddymuniad i gael ail gychwyn cyfarfodydd yn y siambr ac mae adroddiad ar y mater hwn ar yr agenda heddiw.

CAMAU NESAF

12. Rydym eisoes wedi datgan ein bod yn awyddus i wella ein gwasanaeth ac ateb gofynion Cynghorwyr. Yn ogystal a'r holiadur ddwy waith y flwyddyn, rydym yn bwriadu datblygu gofod ar fewnrwyd yr aelodau lle y gall unrhyw un gyflwyno sylwadau ar unrhyw adeg. Yn ychwanegol, credwn fod siarad ag unigolion yn dod a mwy o wybodaeth i ni, ac felly ein bwriad yw ceisio cael sgwrs gyda 2 neu 3 Cynghorydd bob mis er mwyn trafod y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i chi.

13. PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.